# *Cefnogi Newid*: Gwisg Ysgol

Astudiaeth Achos 4

## Amdanom ni

**Ysgol Gynradd Emmanuel**
**Sir Ddinbych**
455 o Ddysgwyr
63% yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim

## Y prif feysydd o dan sylw

- ✓ Cost a fforddiadwyedd
- ✓ Hyrwyddo'r Grant Hanfodion Ysgol (SEG)
- ✓ Ailgylchu

## Yr Angen a Amlygwyd

Sylweddolon ni fod cost gwisg ysgol gyda logo arni yn rhy uchel i rai teuluoedd. I gydymffurfio â chanllawiau newydd Llywodraeth Cymru, roedden ni eisiau ffordd wahanol o roi logo ar y wisg, heb gost ychwanegol i deuluoedd. Cadarnhawyd yr angen hwn trwy adborth gan rieni a thrafodaethau gyda nhw.

## Cost y newid

£2500 y flwyddyn.

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

## Camau a gymerir

- ✓ Mae cyfraniadau **gwisg ysgol yn cael eu cynnig yn ddyddiol** trwy 'siop terfyn dydd' a nosweithiau rhieni
- ✓ **Mae angen gosod logo ar siwmperi yn unig bellach**
- ✓ Gall rhieni brynu **gwisg ysgol gan unrhyw fanwerthwr** yn cynnwys archfarchnadoedd
- ✓ Mae'r **ysgol yn talu am frodio'r logo** ar 2 siwmper i bob plentyn
- ✓ **Cyflenwr lleol** sy'n darparu'r gwasanaeth
- ✓ **Mae rhieni'n mynd â siwmperi i'r siop sy'n brodio'r logo ac yn codi tâl ar yr ysgol**
- ✓ Mae'r **SEG yn cael ei hyrwyddo** gyda rhieni a gofalwyr

## Pwy sy'n cymryd rhan?

- ✓ Rhieni a gofalwyr
- ✓ Cymdeithas Rhieni ac Athrawon
- ✓ Cyflenwr lleol

**Rhieni / Gofalwyr:** Yn cyfrannu gwisg ysgol ail law

**CRhA:** Wedi cytuno i dalu cost brodio'r logo ar 2 siwmper i bob plentyn. Mae'r cyflenwr yn anfonebu'r CRhA, sy'n cynnwys codi arian i dalu am hyn yn ei chynllun gweithredu.

**Cyflenwr lleol:** Yn darparu gwasanaeth hygyrch i rieni am bris gostyngol i'r ysgol.

## Effaith a chanlyniadau

- ✓ **Wedi arbed mwy na £2500 i rieni** trwy beidio gorfod prynu siwmperi wedi'u brodio
- ✓ **Pob disgybl wedi cael logo wedi'i frodio. Does neb yn teimlo'u bod yn colli cyfle.**
- ✓ **Mae mwy o rieni'n ymwybodol o'r SEG**
- ✓ Mae **cyfraniadau gwisg ysgol** yn golygu bod teuluoedd yn cael **gwisg ysgol am ddim** o'r siop
- ✓ **Adborth cadarnhaol gan y rhieni**
- ✓ Y dysgwyr yn ailgylchu **siwmperi Nadolig**

## Y rhwystrau a gafodd sylw

Cyllid. Mae'r CRhA wedi cytuno i godi arian yn barhaus er mwyn talu am y ddarpariaeth hon.

## Cyngor i ysgolion eraill

Mae'n bosib gweithredu'r cynllun yma'n rhwydd iawn, ond mae gofyn sicrhau ymrwymiad ariannol yr ysgol neu gyfraniadau elusennol

## Eisiau gwybod mwy?

Gallwch gysylltu â'r ysgol i gael rhagor o wybodaeth am y dull gweithredu:
Rona.jones@denbighshire.gov.uk